**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**24 Hydref 2016**

**YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2017-18**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi'r diweddaraf i aelodau'r Panel Gweithredol am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb refeniw ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2017-18.

**Cefndir**

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mehefin 2016, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2017-18 i'w cyhoeddi i ddiben ymgynghori. Mae'r ail o'r amcanion hyn yn nodi strategaeth ariannol yr awgrymir y gallai'r Awdurdod seilio ei gynllun ariannol tymor canolig nesaf arni. Y cynnig yw y dylai'r Awdurdod newid ei amcan gwella presennol, sef:

> *"Gan gydnabod y gostyngiad a ddisgwylir yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog."*

i'r canlynol:

> *"Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu strategaeth ariannol tair blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y cyfraniadau ariannol a gostyngiadau mewn gwasanaeth."*

3 Rhoddwyd cyflwyniadau i'r aelodau yn Ngweithgor y Cynllun Gwella ar 14 Mawrth, 11 Ebrill a 25 Ebrill 2016 ac i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mehefin ynglŷn â'r pwysau ariannol a'r rhagolygon cyllid. Cafwyd trafodaethau helaeth yn y cyfarfodydd hyn ynglŷn â sut i gau'r bwlch o £2.3 miliwn a ragamcenir dros y tair blynedd nesaf. Mae'r aelodau'n ymwybodol fod hyn yn anos fyth gan fod yr Awdurdod eisoes wedi rhewi ei gyllideb rhwng 2011-12 a 2014-15. Yn 2015-16, cafwyd cynnydd bach iawn o ryw £113k, ac yn 2016-17 defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn unwaith eto i rewi'r gyllideb. Yn ystod y cyfnod, bu'n rhaid i'r Awdurdod ganfod £3 miliwn o arbedion a gwelodd ei weithlu, gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch cymunedol a staff cefnogol, yn gostwng 9%. Yn ôl ystadegau diweddar 2015-16 a gyhoeddwyd ar StatsCymru, mae gostyngiad mwy sydyn yn nifer y staff wedi digwydd yn GTA y Gogledd nag yn GTA y Canolbarth a'r Gorllewin a GTA y De.

**Gwybodaeth**

4 Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei setliad dros dro refeniw a chyfalaf llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn nesaf ar 19 Hydref, a hynny ar ôl cyflwyno cyllideb ddrafft ar 18 Hydref. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn nid oedd yn hysbys beth fydd y setliad dros dro drafft. Roedd ambell arwydd o'r modd yr oedd Llywodraeth Cymru am ymdrin â chyllid y sector cyhoeddus wedi cael ei roi mewn datganiadau gweinidogol yn ystod dechrau mis Hydref, ond mae'r sefyllfa lawn braidd yn aneglur o hyd. Bydd y trysorydd dros dro'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar yng nghyfarfod y Panel Gweithredol.

5 Drwy'r gwaith a wnaed gan Weithgor y Cynllun Gwella, mae'r Aelodau eisoes wedi dod i'r casgliad na ellir dod o hyd i unrhyw arbedion sylweddol pellach drwy ostyngiadau i linellau'r gyllideb neu gostau cefnogol ac y byddai'n rhaid cael unrhyw arbedion mawr pellach drwy ostyngiadau yn y gwasanaethau.

6 Fel y gŵyr yr aelodau eisoes, mae arbed £1 filiwn yn unig yn cyfateb i gael gwared ar naill ai un peiriant tân amser cyflawn (a 24 o swyddi diffoddwyr tân amser cyflawn) neu 8 peiriant y system RDS a hyd at 100 o swyddi cysylltiedig (pan nad oes gorsafoedd yn cael eu cau) neu 8 - 10 o orsafoedd y system RDS ledled ardal Gogledd Cymru.

7 Dylai’r Aelodau fod yn ymwybodol hefyd mai’r sefyllfa os ydynt yn dymuno adolygu eu penderfyniad ynglŷn â’r amcanion gwella ar gyfer 2017-18, yng ngoleuni y setliad refeniw ar gyfer llywodraeth leol, yw na fyddai’r amserlenni cysylltiedig yn caniatáu cynnal ymgynghoriad statudol gyda’r holl randdeiliaid er mwyn galluogi’r gostyngiadau hyn yn y gwasanaeth yn 2017-18. Os yw gostyngiad yn y gwasanaeth yn rhywbeth a ystyrir yna mae’n fwy realistig ceisio cael unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb yn 2019-20, fel y daeth i’r amlwg yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**Risgiau a Chyfleoedd**

8 Fe wrth bob amser wrth osod y gyllideb, mae’r prif risgiau i’r Awdurdod yn ymwneud â rhoi dyfarniad cyflog uwch na’r disgwyl, lefelau gweithgarwch uwch, gostwng neu dynnu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a chanlyniad y setliad dros dro i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru.

9 Mae’r rhain i gyd yn anhysbys ar hyn o bryd. Yr hyn y gellir ei amcangyfrif yw’r gwahaniaeth rhwng cost cyllideb barhau a chyllideb wedi’i rhewi. Er mwyn ariannu costau gweithwyr uwch oherwydd 1% o ddyfarniad cyflog, yr ardoll prentisiaethau, costau refeniw gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd a chwyddiant prisiau annewisol, bydd angen cynyddu’r gyllideb £1.7 miliwn yn 2017-18. Ar ôl gwaith manylach ar y pwysau ar y gyllideb fewnol, mae’r ffigwr hwn yn uwch na’r amcangyfrifon cynharach a adroddwyd i’r Aelodau.

10 Bu trafodaethau blaenorol ag aelodau’r Panel Gweithredol yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu’r gyllideb ar gyfer 2017-18. Gellid gwrthbwyso’r rhain yn rhannol yn erbyn unrhyw gynnydd angenrheidiol, a defnyddiwyd y rhain i raddau llai yn y blynyddoedd a fu. Mae gan yr Awdurdod £2.6 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd, a byddai hyn yn caniatáu gweithredu fel hyn. Fodd bynnag, dyma atgoffa’r Aelodau fod risg yn gysylltiedig â’r strategaeth hon oherwydd byddai angen i’r Awdurdod wneud £1.7 miliwn o arbedion y flwyddyn ganlynol cyn unrhyw arbedion ychwanegol i gwrdd â chwyddiant cyflogau a phrisiau, a hynny dim ond i aros yn ei unfan. Penderfynwyd gohirio’r defnydd o gronfeydd wrth gefn tan 2018-19 er mwyn gohirio unrhyw doriadau posibl i wasanaethau tan 2019-20. Felly, yn unol â’r strategaeth ariannol y cytunwyd

arni, dylai'r Aelodau ystyried cynyddu cyfraniadau'r awdurdodau lleol i gefnogi cyllideb 2017-18.

10 Mae'r tabl isod yn nodi'r goblygiadau ariannol i bob Cyngor yng Ngogledd Cymru ar sail ei gyfran bresennol o'r boblogaeth gyfan.

| £ | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 5,240,568 | 5,206,959 | 5,198,570 | 5,283,704 | 5,289,891 | 5,277,177 | 5,558,451 |
| **Gwynedd** | 5,588,685 | 5,525,827 | 5,507,985 | 5,588,255 | 5,602,787 | 5,598,221 | 5,896,606 |
| **Sir Ddinbych** | 4,549,039 | 4,569,316 | 4,593,630 | 4,342,155 | 4,360,740 | 4,363,962 | 4,596,562 |
| **Siry Fflint** | 7,051,716 | 6,981,590 | 6,955,089 | 7,018,721 | 7,033,548 | 7,022,578 | 7,396,882 |
| **Wrecsam** | 6,266,101 | 6,269,049 | 6,300,506 | 6,340,507 | 6,398,354 | 6,433,093 | 6,775,976 |
| **Ynys Môn** | 3,236,545 | 3,219,270 | 3,216,231 | 3,198,669 | 3,200,523 | 3,190,812 | 3,360,883 |
| **CYFANSWM** | **31,932,654** | **31,772,011** | **31,772,011** | **31,772,011** | **31,885,843** | **31,885,843** | **33,585,360** |

## Argymhellion

12 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi'r rhagdybiaethau y gosodwyd y gyllideb refeniw ddrafft arni ar gyfer 2017-18;

(ii) cadarnhau eu bod yn dymuno argymell i'r Awdurdod fod cyllideb 2017-18 yn cael ei llunio ar sail y lefel gyfredol o wasanaethau;

(iii) Argymell i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2016 ei fod, yn unol â'r strategaeth ariannol tair blynedd, yn cymeradwyo cynnydd yng nghyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol ar gyfer 2017-18 fel y dangosir yn y tabl uchod.